**Claire Homard**
Chief Officer (Education and Youth)
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Holl Fudd-ddeiliaid/Ymgynghorai

| | |
|---|---|
| Eich Cyf/Your Ref | |
| Ein Cyf/Our Ref | CH/LB |
| Dyddiad/Date | 9 Ionawr 2023 |
| Gofynnwch am/Ask | Tîm Moderneiddio Ysgolion |
| Rhif | 01352 702188 |

Annwyl Fudd-ddeiliad/Ymgynghorai

**Cynyddu capasiti Ysgol Penyffordd o'r ddarpariaeth ar hyn o bryd, sef 315 o leoedd llawn amser yn yr ysgol, i 375 o leoedd llawn amser, cynnydd o 60 o leoedd llawn amser o 1 Medi 2023 ymlaen.**

Ar ddydd Iau 20 Rhagfyr 2022, penderfynodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Penyffordd o'i darpariaeth bresennol, sef 315 o leoedd llawn amser yn yr ysgol, i 375 o leoedd llawn amser, sef cynnydd o 60 o leoedd llawn amser o 1 Medi 2023 ymlaen.

Ystyriodd y Cabinet y Cynnig, y gwrthwynebiad statudol a dderbyniwyd, ac maent wedi ymateb yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion
- Yr Ail Gynhyrchiad, 2018. Penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r cynnig.

Wrth benderfynu ar y cynnig, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd yn:

- Cynnal y safon gyfredol o addysg yn yr ardal a disgwylir y bydd yn cael effaith cadarnhaol ar safonau yn yr ysgol.
- Cynyddu capasiti yn yr ysgol, ers 2019 mae'r cynnydd mewn galw am le ac argaeledd buddsoddiad cyfalaf o dan Adran 106 - cyfraniadau cynllunio, wedi creu cyfle i wneud rhagor o fuddsoddiad mewn ehangu'r ysgol.
- Darparu digon o gapasiti i fodloni'r galw disgwyliedig gan deuluoedd lleol am y dyfodol rhagweladwy.

County Hall, Mold. CH7 6ND
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND
www.siryfflint.gov.uk

YN GADARN O BLAID · POBL ANABL
POSITIVE ABOUT · DISABLED PEOPLE

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
The Council welcomes correspondence in Welsh or English.

Mae'r cynnig wedi ystyried unrhyw faterion cydraddoldeb a nodwyd trwy gwblhau'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb.

Ymdrinnir â threfniadau mynediad yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdodau Lleol.

Ymdrinnir â chludiant ar gyfer disgyblion drwy gyfeirio at Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol.

O dan adran 54 Deddf 2013 lle mae cynigion wedi cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol, gall y cyrff canlynol o fewn 28 diwrnod gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru ar gyfer ystyriaeth;

- Awdurdod Lleol arall y mae'r cynnig yn effeithio arno
- Corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn effeithio arni
- Corff Llywodraethu unrhyw ysgol wirfoddol neu ysgolion sefydledig sy'n destun y cynnig
- Ymddiriedolaeth sy'n meddu ar dir ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun y cynnig
- Sefydliad Addysg Bellach sy'n cael ei effeithio gan y cynnig

Nodwyd bod un Gwrthwynebiad Statudol gan Fudd-ddeiliaid wedi'i dderbyn yn ystod y broses Gwrthwynebu ffurfiol.

Cododd gwrthwynebwyr y pryderon canlynol yn ystod y cyfnod gwrthwynebu:

- Diffyg rhagwelediad mewn perthynas â'r adeilad gwreiddiol
- Y cynnydd o ran capasiti yn arwain at ddatblygiadau tai newydd ym Mhenyffordd
- Diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau ac amwynderau lleol hanfodol eraill

Mae'r pryderon a godwyd wedi cael eu trin yn uniongyrchol yn Adroddiad Gwrthwynebiad y Cyngor sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy ddilyn y ddolen ganlynol
https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx
(os oes angen copïau caled yn Gymraeg neu yn Saesneg, e-bostiwch 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk gyda'r cyfeiriad post).

Yn dilyn y penderfyniad, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda theuluoedd, staff a Llywodraethwyr Ysgol Penyffordd er mwyn sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl i ddisgyblion yn ystod y gwaith ehangu.

Yn gywir,

Claire Homard
Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid